Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Menter a Busnes

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mercher, 2 Mai 2012**

Amser:
**09:15**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Siân Phipps**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8582
enterprise.committee@wales.gov.uk

## Agenda

**Cyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod (09.15 - 09.30)**

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2. Sesiwn graffu gyda'r Dirprwy Weinidog Sgiliau - Y wybodaeth ddiweddaraf am yr adroddiad ar bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (09.30 - 10.30) (Tudalennau 1 - 10)

- Jeff Cuthbert AC, y Dirprwy Weinidog Sgiliau
- Teresa Holdsworth - Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc, Llywodraeth Cymru
- Suzanne Chisholm - Pennaeth Cynorthwyo Pobl Ifanc, Llywodraeth Cymru

### 3. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol: (10.30)

### 4. Dylanwadu ar y broses o foderneiddio polisi caffael yr Undeb Ewropeaidd - Trafod yr adroddiad drafft (10.30 - 11.00) (Tudalennau 11 - 61)

### 5. Papurau i'w nodi (Tudalennau 62 - 70)

- Nodyn am gyfarfod y grŵp gorchwyl a gorffen ar gaffael yn yr UE ar 28 Chwefror.

- Nodyn am gyfarfod y grŵp gorchwyl a gorffen ar gaffael yn yr UE ar 14 Mawrth.

**Diweddariad Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Menter a Busnes ar yr ymatebion a roddwyd i argymhellion y Pwyllgor Menter a Dysgu yn yr adroddiad: Pobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant**

Mae mynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc yn dal i fod yn un o'm prif flaenoriaethau. Rwy'n croesawu'r cyfle i roi diweddariad i chi ar sut mae'r mesurau a amlinellwyd yn ymateb Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2010 i Adroddiad Pwyllgor Craffu Menter a Dysgu yn cael eu gweithredu a hefyd y cyfle i drafod yr hyn rydyn ni'n ei wneud i fynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc yng Nghymru.

Mae'n bleser gen i gyhoeddi bod Is-adran Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid wedi'i chreu o fewn yr Adran Addysg a Sgiliau. Bydd yr Is-adran hon yn dod â meysydd polisi allweddol at ei gilydd i roi cymorth i bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed.

Mae diweithdra ymhlith pobl ifanc yng Nghymru'n dal i gynyddu gyda mwy na phumed ran y bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed yn ddi-waith. Rydyn ni wedi rhoi rhai mentrau allweddol ar waith i roi cymorth i gyflogaeth ieuenctid dros y 12 mis diwethaf:

- Dechreuodd rhaglen Twf Swyddi Cymru ar 2 Ebrill a bydd yn creu 4,000 o swyddi'r flwyddyn, dros y tair blynedd nesaf, i bobl ifanc ddi-waith rhwng 16 a 24 oed, gan roi cyfle gwaith iddyn nhw am gyfnod o chwe mis am yr isafswm cyflog cenedlaethol am isafswm o 25 awr yr wythnos. Bydd y rhaglen yn darparu ar gyfer pobl ifanc sy'n barod at waith ond sydd wedi'i chael hi'n anodd dod o hyd i waith. Canlyniad y rhaglen yw rhoi cymorth i bobl ifanc gael cyflogaeth barhaol gan gynnwys cyfle i gael Prentisiaeth lle y bo'n briodol.

- Rydyn ni'n dal i ehangu ein menter Recriwtiaid Newydd, sy'n cynnig cymhorthdal cyflog i gyflogwyr sy'n cymryd prentis rhwng 16 a 24 oed. Yn ystod 2011-2012, cynyddon ni'r nifer o leoedd i Recriwtiaid Newydd i 1,800 o'r targed gwreiddiol, sef 1,000. Mae'r niferoedd ar gyfer 2012-2013 wedi cynyddu eto i 2,000 o leoedd. Byddwn ni'n ceisio cysylltu cyfloedd prentisiaeth fel canlyniadau dilyniant ag unigolion sy'n cael eu cefnogi drwy raglen Twf Swyddi Cymru cyhyd â bod digon o gyllid ar gael.

- Rydyn ni'n cynnig 2,000 o leoedd ychwanegol eleni ar ein rhaglen Llwybrau at Brentisiaethau a fydd yn cael ei chynnig ar draws 10 sector diwydiant. Cyflwynwyd y rhaglen i roi rhaglen hyfforddi ddwys lawn amser i bobl ifanc heb Brentisiaeth iddynt gael y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer fframwaith brentisiaeth a ddatblygwyd yn agos gyda'r Cynghorau Sgiliau Sector perthnasol i ateb anghenion cyflogwyr.

- Fel rhan o Raglen y Llywodraeth, rhoddwyd dwy raglen gyflogadwyedd newydd ar waith ym mis Awst 2011: Hyfforddeiaethau i rai 16-18 oed a Camau at Waith i oedolion 18+ oed. Bydd y rhaglenni hyn yn rhoi cymorth i bobl ifanc fagu hyder a chymhelliant, i wella eu sgiliau ac i gael profiad gwaith i'w galluogi i gael cyflogaeth barhaol.

Rwy'n diolch i'r pwyllgor am y cyfle i roi diweddariad ar weithredu mesurau i gefnogi ymgysylltu a chyflogaeth ieuenctid i ymateb i argymhellion Adroddiad Hydref 2010 fel y'u nodir isod.

**Argymhelliad 1.** Argymhellwn i Lywodraeth Cynulliad Cymru barhau i sicrhau, drwy weithio gyda Llywodraeth y DU lle y bo'n briodol, bod prif ddata a data lleol sy'n ymwneud â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth mor gynhwysfawr, cadarn a chyfredol â phosibl.
**Argymhelliad 3.** O gofio bod pobl ifanc anabl ddwywaith yn fwy tebygol o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant o gymharu â phobl nad ydynt yn anabl, argymhellwn y dylai cyhoeddiadau ystadegol Llywodraeth Cynulliad Cymru ddadansoddi data yn rheolaidd mewn perthynas ag anabledd a phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Diweddariad ar argymhellion 1 a 3

Cyhoeddir penawdau data am bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth drwy gyfres o gyhoeddiadau ystadegol gan adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru. Cyhoeddir ein mesur penawdau blynyddol mewn Datganiad Ystadegol Cyntaf ym mis Gorffennaf bob blwyddyn. Yn 2009, cyflwynon ni adroddiad ystadegol chwarterol newydd oedd yn crynhoi'r data diweddaraf o amrywiaeth o ffynonellau, yn ymwneud â phobl ifanc nad ydynt mewn addysgu, hyfforddiant na chyflogaeth. Roedd hwn yn cynnwys data chwarterol mwy amserol, ond yn llai cadarn yn ystadegol, i ddangos y tueddiadau diweddaraf. Mae'r wybodaeth a gyhoeddwyd ddiwethaf am y flwyddyn yn gorffen mis Medi 2011 a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2012.

O gofio bod ffynhonnell y wybodaeth hon yn defnyddio data arolygon fel arfer, wrth edrych ar is-grwpiau o'r boblogaeth, fel pobl ifanc anabl, mae'r data'n mynd yn llai cadarn ac yn amodol ar wallau samplu i raddau helaethach. Fodd bynnag, wrth ymateb i'r argymhelliad hwn ac adborth arall gan ddefnyddwyr, cyhoeddodd y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Erthygl Ystadegol "*Dadansoddiad Pellach o ddata yn ymwneud â Phobl Ifanc Nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant*" ym mis Mawrth 2012. Rhoddodd yr Erthygl hon ddadansoddiad manylach o nodweddion y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant mewn perthynas ag anabledd. Hefyd tynnodd sylw at rai o'r materion ynghlwm wrth ansawdd y data.

**Argymhelliad 2.** Gwnawn argymhelliad pellach y caiff prif ddata a data lleol ar bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ei roi yn rheolaidd i bob asiantaeth sydd â rôl i'w chwarae mewn perthynas â datrys y broblem o sicrhau y caiff mesurau rhagweithiol ac adweithiol eu blaenoriaethu.
**Argymhelliad 4.** Argymhellwn y dylai'r Gweinidog, fel rhan o adolygiad Gyrfa Cymru, geisio gwella ei berfformiad o ran rheoli cofrestr genedlaethol gyson a chynhwysfawr o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a chynnal cronfa ddata hefyd sy'n gallu dod o hyd i swyddi gwag addas i bobl ifanc ddi-waith. Argymhellwn ymhellach y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru barhau i fonitro perfformiad yn y maes hwn.

Diweddariad ar argymhellion 2 a 4

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru arweiniad yn 2002 (Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl ifanc yng Nghymru) o dan adran 123 Deddf Dysgu a Sgiliau, 2000. Mae Atodiad 12 yr Arweiniad hwnnw, "Cadw mewn cysylltiad" yn nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru bod awdurdodau lleol yn sefydlu ac arwain trefniadau amlasiantaethol i gadw mewn cysylltiad â phobl ifanc sydd wedi ymddieithrio neu wedi dadrithio oddi wrth ddysgu, neu rai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant neu sydd mewn perygl o fod felly. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a'u partneriaid gynorthwyo'r bobl ifanc hyn i'w helpu i ailgysylltu â dysgu, cyflogaeth a/neu ddinasyddiaeth weithgar. Wrth wneud hyn bu disgwyl y byddai'r awdurdodau lleol a'u partneriaid yn rhannu ac yn gwneud y defnydd gorau o'r data sydd ar gael iddyn nhw (mae Atodiad 11 yr Arweiniad yn cyfeirio at Rannu Data).

Yn ymarferol, mae ymateb yr awdurdodau lleol i'r gofyniad hwn wedi amrywio o ran maint eu brwdfrydedd a'u llwyddiant. Soniwyd weithiau am anawsterau wrth rannu data rhwng asiantaethau. Rwyf wrthi'n gweithio ar hyn o bryd gyda fy swyddogion i weld beth yw'r ffyrdd fwyaf effeithiol o gryfhau'r gofyniad sydd i awdurdodau lleol/consortia addysgol rhanbarthol ymgymryd â'r rôl hon yn rhagweithiol.

Rwyf hefyd yn edrych ar y posibilrwydd o gael systemau rhannu / olrhain data Cymru gyfan, sydd wedi'u cysylltu â threfniadau gwybodaeth presennol ysgolion a cholegau addysg bellach. Ceir rhagor o fanylion am y gwaith sydd ar y gweill i nodi dangosyddion rhagfynegi i bobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio yn y diweddariad i argymhelliad 5.

Ar hyn o bryd rydyn ni'n drafftio arweiniad newydd ar Wasanaethau Cymorth Ieuenctid a fydd yn ei gwneud hi'n ofynnol i asiantaethau ac awdurdodau lleol ddefnyddio dull mwy cydlynus ac wedi'i dargedu i gynorthwyo'r bobl hyn nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, neu sydd mewn perygl o fod felly.

**Argymhelliad 5.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru werthuso dulliau awdurdodau lleol a rhanbarthol o fynd i'r afael â phroblem pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant er mwyn llunio model a chanllawiau arfer gorau ar gyfer darparu a monitro gwasanaethau effeithiol.
**Argymhelliad 6.** Argymhellwn y dylai'r gwaith o lunio canllawiau clir, amlasiantaethol i sicrhau bod ymarferwyr yn defnyddio dull cynnar, cyson a holistaidd o nodi'r rheini sydd mewn perygl o adael addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant fod yn un o ganlyniadau adolygiad y Gweinidog o'r cymorth a roddir gan ei Adran i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, ac y dylid ymyrryd yn briodol ar gam cynnar.

Diweddariad ar argymhellion 5 a 6

Rwyf eisoes wedi rhannu â'r Pwyllgor fy marn bod "atal llif" y bobl ifanc sy'n eu cael eu hunain heb waith, cyflogaeth na hyfforddiant yn 16 nid yn unig yn un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o leihau'r niferoedd yn y tymor hir ond hefyd yn un o'r heriau mwyaf i Lywodraeth Cymru o ran ein polisïau, ac i ysgolion ac awdurdodau lleol o ran cyflenwi.

Yn rhan o brosiect ymchwil Cadw mewn Cysylltiad, gwneir adolygiad o lenyddiaeth gan y Gwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi i nodi systemau sy'n effeithiol wrth nodi, o

oedran cynnar, pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio o gyflogaeth, addysg a hyfforddiant. Mae llenyddiaeth o'r Unol Daleithiau'n awgrymu ei bod hi'n bosibl nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio yn gywir hyd at 85% gan ddefnyddio dangosyddion cyflawniad, presenoldeb ac ymddygiad yn yr ysgol.

Nod menter Teuluoedd yn Gyntaf yw datblygu gwasanaeth cymorth di-dor i deuluoedd ynghyd â rhaglenni eraill fel Dechrau'n Deg, Cymunedau'n Gyntaf a'r Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd. Derbyniodd Llywodraeth Cymru Gynlluniau Teuluoedd yn Gyntaf gan bob awdurdod lleol ym mis Hydref 2011.

**Argymhelliad 7.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth y Cynulliad adolygu pa mor effeithiol y mae awdurdodau lleol yn rhoi gofynion statudol cyfredol ar waith i ategu addysg unigolion sy'n gadael gofal cyn iddynt gyrraedd 25. Dylai'r adolygiad gynnwys tystiolaeth gan unigolion sy'n gadael gofal ac sy'n rhan o systemau addysg bellach ac addysg uwch a'r rheini nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Diweddariad

Cyn hir bydd yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant yn ymgynghori ar ddatblygu cynllun newydd i bobl ifanc i'w cynorthwyo wrth iddynt drosglwyddo o ofal i fyw'n annibynnol ar ôl eu pen-blwydd yn 18 oed. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwnnw bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ceisio codi'r oedran y gall pobl ifanc ailgysylltu â gofal i 25 oed a hefyd bydd yn galluogi bod cynghorydd personol ar gael i'r bobl ifanc hynny.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r Gronfa Loteri Fawr, yn rhan o'r Cynllun Cyfrifon Segur i Gymru, i gytuno ar fanyleb ar gyfer Rhaglen Ymgysylltu Ieuenctid fel y gall grwpiau o bobl ifanc agored i niwed 16/17 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant i gael cyfleoedd lleoliad gwaith gyda thâl am 25 wythnos. Bydd Rownd 1 y rhaglen hon yn targedu'r rhai sy'n gadael gofal a phobl ifanc yn y system cyfiawnder cymdeithasol a bydd yn eu galluogi i symud yn nes at gyflogaeth a / neu bydd yn codi eu dyheadau a'u disgwyliadau i gael addysg bellach neu hyfforddiant neu i symud i gyflogaeth barhaol am dâl.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid blynyddol wedi'i dargedu o £1 filiwn y flwyddyn dros y 6 blynedd diwethaf i godi cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal. Mae'r cyllid ar gyfer 2012-13 wedi'i gynnwys yn rhan o'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion. Mae'r canllawiau ar gyfer gweithredu'r grant yn dweud ein bod ni'n disgwyl i bob Consortiwm gynllunio sut maen nhw'n paratoi at addysg plant sy'n derbyn gofal. O'r flwyddyn academaidd hon rydym wedi darparu bwrsari o £2,000 i bob un sy'n gadael gofal sy'n mynd i addysg uwch.

Mae ehangu mynediad i ddysgwyr sy'n agored i niwed yn hanfodol i'n gweledigaeth i ddarparu Addysg Bellach yng Nghymru. Rydym yn annog darparwyr Addysg Bellach a thimau Gadael Gofal i gydweithredu. Mae hyn yn arwain at ddeall yn well anghenion ac amgylchiadau ein dysgwyr sydd fwyaf agored i niwed ac mae trefniadau mwy hyblyg yn cael eu rhoi yn eu lle i'r rhai sy'n gadael gofal ennill cymwysterau ac felly wella eu cyfleoedd bywyd.

Rydym wedi cyfranogi wrth sefydlu safonau'r DU i rai mewn darpariaeth Addysg Bellach sy'n gadael gofal ac yn weithgar wrth annog pob darparwr Addysg Bellach i ymgyrraedd at y safonau hyn a'u cyflawni.

**Argymhelliad 8.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried y ffordd orau o ehangu ac ariannu arferion gorau rhaglenni a gynhelir gan sefydliadau'r trydydd sector ledled Cymru, mewn cydweithrediad â rhaglenni awdurdodau lleol ac awdurdodau ysgolion ac i ategu'r rheini.

**Argymhelliad 12.** Fel rhan o'n gwerthusiad a argymhellwyd o ddulliau awdurdodau lleol a rhanbarthol o ddelio â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, argymhellwn y dylai Gweinidogion Cymru bennu asiantaeth arweiniol yn lleol ar gyfer bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Dylai'r asiantaeth hon gydlynu partneriaethau, nodi cyfrifoldebau, rheoli taith pobl ifanc rhwng un cam a'r llall a monitro perfformiad.

Diweddariad ar argymhellion 8 a 12

Yr Is-Adran Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid fydd yn arwain yr Adolygiad o weithgareddau i helpu pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Nod yr Adolygiad fydd gweld sut gellir cydredeg yr adnoddau hyn â'r ymyriadau hynny sy'n cael yr effaith fwyaf. Mae ychydig o waith mapio cychwynnol ar lefel awdurdodau lleol sydd wedi cael ei gomisiynu'n rhan o'r Adolygiad 14-19 cyffredinol. Yn ogystal, bydd yr Adolygiad yn cynnwys gwaith i egluro rolau, systemau llwybro a phrotocolau rhannu gwybodaeth.

I lawer o bobl ifanc nad ydynt yn ymgysylltu â dysgu yn yr ysgol, mae cymorth dysgu heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol yn y gymuned, gan gynnwys gwaith cymdeithasol, yn gallu bod yn ddull gwerthfawr o ran eu helpu i fagu hunanhyder, hunan-barch ac yn y pen draw i ailymgysylltu â dysgu ffurfiol, cyflogaeth, hyfforddiant neu ddinasyddiaeth weithgar.

O dan Arweiniad i Wasanaethau Cymorth Ieuenctid 2002, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol weithio gydag amrediad eang o bartneriaid statudol a'r sector gwirfoddol i gynllunio a sicrhau bod darpariaeth amrywiol yn y gymuned i ateb anghenion pob person ifanc.

Dylai hyn gynnwys trefniadau lleol i gefnogi gweithgarwch gan gyrff fel Cynllun Gwobr Dug Caeredin, Urdd Gobaith Cymru ac Ymddiriedolaeth y Tywysog sy'n gallu rhoi cefnogaeth arbenigol i bobl ifanc oresgyn y rhwystrau i ddysgu ac maen nhw'n aml yn gallu sicrhau cyllid allanol ychwanegol o ffynonellau nad ydyn nhw ar gael i awdurdodau lleol/ysgolion.

Yn ymarferol, mae'r ddarpariaeth yn amrywio, ac yn aml mae ysgolion naill ai heb fod yn ymwybodol o'r hyn sydd gan y trydydd sector i'w gynnig, neu nid ydynt yn deall yr hyn y gall ei wneud i helpu eu myfyrwyr, ac nid ydynt yn manteisio'n llawn arno.

Credaf fod gan y trydydd sector lawer iawn i'w gynnig i bobl ifanc yn y maes hwn, ac fel arfer mae'n ddarparwr cost-effeithiol. Rwy'n mynd ati'n rhagweithiol i chwilio am ffyrdd o annog ysgolion a darparwyr dysgu yn y gymuned i gydweithio'n fwy clòs i ateb anghenion pob person ifanc, ac yn enwedig y rhai sydd mewn perygl o fod yn bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. O ran pobl ifanc hŷn a rhai nad

ydynt eisoes mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, mae gan gyrff trydydd sector fel Ymddiriedolaeth y Tywysog, Fairbridge De Cymru a Llamau, i enwi tri'n unig, lawer i'w gynnig o ran cynorthwyo ac rwyf wedi gofyn am gyngor fy swyddogion o ran gweld sut gellir ei ddefnyddio'n fwy effeithiol.

Mae'r Arweiniad yn cael ei adolygu ar hyn o bryd; bydd y fersiwn ddiwygiedig yn egluro fy nisgwyliadau o ran y graddau llawer helaethach y bydd ysgolion a darparwyr trydydd sector yn y gymuned yn cydweithredu yn y dyfodol.

**Argymhelliad 9.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector er mwyn cynnwys cyflogwyr ar gam cynnar wrth weithio gyda dysgwyr, hyfforddwyr dysgu ac eraill er mwyn sefydlu dull mwy cydgysylltiedig o helpu pobl ifanc i sicrhau cyfleoedd cyflogaeth neu brentisiaeth, ac yn arbennig o ran darparu cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.

Diweddariad

Mae'r cysyniad Llwybrau newydd at Waith y cyfeiriwyd ato yn ein hymateb yn cael ei ddatblygu drwy amrywiaeth o fentrau megis Twf Swyddi Cymru (y cyfeiriwyd ato uchod). Yn ogystal mae prosiect peilot Marchnad Lafur Drosiannol a ddarparwyd drwy Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) sy'n gweithio gyda chyrff a all gefnogi a datblygu pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Mae'r cyrff sy'n cael eu contractio'n darparu 26 wythnos o waith am dâl a'r nod yw symud y bobl ifanc hyn ymlaen at waith parhaol neu ddysgu pellach ar lefel uwch.

Mae dewisiadau'n cael eu datblygu ar hyn o bryd i roi trefniadau amlasiantaethol yn eu lle ar lefel consortia rhanbarthol i nodi'r bobl ifanc 11-25 oed sydd ag angen cymorth ychwanegol neu ddwys. Bydd gofyn i'r dewisiadau hyn gael eu hystyried ymhellach ar draws Llywodraeth Cymru, gennyf i a Gweinidogion perthnasol eraill, a bydd angen eu trafod hefyd â rhanddeiliaid allanol. Byddan nhw'n golygu bod asiantaeth arweiniol a nodwyd - fwy na thebyg y consortiwm rhanbarthol - yn cydweithredu ag amrediad o bartneriaid i weld pa un/rai yw'r gwasanaeth/au mwyaf priodol i ateb angen pobl ifanc unigol a sicrhau bod pob person ifanc yn cael pa bynnag gymorth sydd ei angen arno i ymgysylltu â rhaglen ddysgu strwythuredig a chydlynus a symud ymlaen drwyddi tuag at nod yn y pen draw o fod yn gyflogedig, yn "barod at waith" neu'n ymgysylltu'n gynhyrchiol ac yn rheolaidd mewn dinasyddiaeth weithgar. Gall fod mwy o rôl i'r Gwasanaethau Ieuenctid statudol lleol a'r sector gwirfoddol sydd â'r profiad, y seilwaith a'r arbenigedd i ddarparu dysgu anffurfiol a heb fod yn ffurfiol wrth ddarparu cymorth personol.

Bydd y system hon, rydym yn cyfeirio ati dros dro fel "trefniadau broceriaeth" yn cadarnhau ac yn adeiladu ar brosesau Cadw mewn Cysylltiad i roi cymorth i bobl ifanc a bydd yn cynnwys ysgolion a phartneriaid yn y gymuned hefyd.

**Argymhelliad 10.** Argymhellwn y dylai un Gweinidog arwain y gwaith o gydlynu strategaeth a chynlluniau gweithredu, monitro'r gwaith o weithredu hyn a bod yn atebol ar lefel genedlaethol gan fod pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na

hyfforddiant yn fater sy'n berthnasol i nifer o Adrannau a pholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Diweddariad

Yn ychwanegol at ein hymateb a roddwyd yn flaenorol mae Llywodraeth Cymru bellach wedi sefydlu Is-Adran Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid o fewn yr Adran Addysg a Sgiliau a fydd yn arwain wrth lywio polisi a gweithgarwch sy'n cynorthwyo pobl ifanc i mewn i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yng Nghymru. Bydd yn sicrhau cydlyniaeth o ran ymagwedd gyffredinol yr adran tuag at ymgysylltu a chyflogaeth ieuenctid a bydd yn datblygu ac yn adeiladu ar weithio gyda meysydd polisi allweddol eraill ar draws Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 11.** Argymhellwn y dylai Gweinidogion Cymru arolygu a diweddaru'r strategaeth gyfredol ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant fel ei bod yn cwmpasu'r grŵp oedran 16 i 25, ac y dylent gyflwyno targed cenedlaethol newydd ar gyfer lleihau cyfran y bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, gan sicrhau bod holl Adrannau perthnasol y Llywodraeth yn gyfrifol am ei gyflawni.

Diweddariad

Rhoddodd Cynllun Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid 2011 sydd wedi'i gyhoeddi set ehangach o gamau gweithredu i gynorthwyo pobl ifanc 11-25 oed na strategaeth 2009 oedd yn cynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Bydd yr Is-Adran Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid yn arwain wrth sefydlu Cynllun Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid diwygiedig, yng ngoleuni Rhaglen y Llywodraeth a'r angen am leihau ymhellach niferoedd y bobl ifanc sydd, neu sydd mewn perygl o fod yn rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

**Argymhelliad 13.** Argymhellwn y dylai Gweinidogion adolygu digonolrwydd y trefniant cyfansoddiadol presennol ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Ganolfan Byd Gwaith mewn cyd-destun datganoledig a gweithio gyda'u swyddogion cyfatebol yn y DU i wneud y newidiadau sydd eu hangen i sicrhau bod y trefniant yn fwy effeithiol yn y dyfodol.

**Argymhelliad 14.** Argymhellwn y dylai Gweinidogion Cymru weithio gyda chydweithwyr yn y DU i sicrhau bod cynghorwyr personol a gweithwyr allgymorth yn ffurfio rhan ganolog, yn hytrach na rhan ymylol, o weithgarwch y Ganolfan Byd Gwaith er mwyn gwella effeithiolrwydd ei rhaglenni ymgysylltu.

**Argymhelliad 15.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i sicrhau na fydd yr unigolion mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn cael eu hesgeuluso ac y caiff y rheini sydd â'r angen mwyaf eu blaenoriaethu ar gyfer cymorth dwys os bydd nifer fawr o bobl ifanc ddi-waith yn gwneud cais am gymorth o dan y Rhaglen Waith yn y dyfodol.

Diweddariad

Mae Llywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi nodi uchelgais ar y cyd ar gyfer cynllunio ac integreiddio gwell i raglenni cyflogaeth, sgiliau ac eraill er mwyn

lleihau nifer y bobl sy'n ddi-waith neu sydd heb fod yn economaidd weithgar, i godi enillion y rhai sydd mewn gwaith ac i wella gwasanaethau i gyflogwyr. Mae egwyddorion craidd sut eir ymlaen â hyn yn 'Fframwaith y Farchnad Lafur i Gymru'.

Er mwyn gwneud cynnydd tuag at hyn, mae'r Cyd-fwrdd Cyflenwi Rhaglenni Cyflogaeth i Gymru wedi cytuno ar Gynllun Gweithredol ar y Cyd sy'n nodi amcanion ar lefel uchel a chamau gweithredol i helpu i gynllunio a chyflenwi polisïau a gwasanaethau yng Nghymru, gyda'r nod o gael llawer mwy o gydredeg, symleiddio, effeithlonrwydd, ac integreiddio rhaglenni cyflogaeth, sgiliau ac eraill.

**Argymhelliad 16.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gydag asiantaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i gydlynu'r gwaith o ddarparu prosiectau a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd a phrosiectau nad ydynt yn cael eu hariannu gan yr UE ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant er mwyn meithrin diwylliant o gydweithredu yn hytrach na diwylliant cystadleuol.

Diweddariad

Mae gan Lywodraeth Cymru barch mawr at bwysigrwydd partneriaethau dilys a byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid ledled Cymru i sicrhau bod y rhaglenni Ewropeaidd newydd yn mynd i'r afael â'r prif heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu Cymru ac sy'n cael eu cyflwyno'n llwyddiannus. Her allweddol fydd defnyddio cyllid Ewropeaidd yn effeithiol i gyd-fynd â pholisïau Llywodraeth Cymru ym meysydd iechyd, addysg, hyfforddiant a darparu seilwaith i ddileu'r rhwystrau i bobl ifanc sy'n mynd i mewn i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Cyflwynwyd Fframweithiau Strategol yn rownd 2007-2013 y rhaglenni Ewropeaidd i gwrdd â'r ymrwymiad i fabwysiadu dull mwy strategol wrth ddefnyddio cyllid ac un sy'n sicrhau bod cydredeg llawer mwy clòs â pholisïau Llywodraeth Cymru. Mae'r Fframweithiau presennol yn nodi'r mathau o ymyriadau a fydd yn cyflenwi'r blaenoriaethau orau a'u bwriad yw:

- cryfhau'r cydredeg strategol rhwng polisïau'r UE a Llywodraeth Cymru;
- cynnig dull mwy cydlynus fel bod modd defnyddio adnoddau'n well a manteisio i'r eithaf ar botensial Cronfa Gymdeithasol Ewrop o ran cysylltu'n uniongyrchol â chanlyniadau gwell i bobl ifanc;
- cynorthwyo wrth leihau maint cyffredinol y prosiectau;
- helpu i lunio a chydbwyso'r modd y mae rhaglenni'n cael eu cyflenwi.

**Argymhelliad 17.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru adolygu sut y gellid rhoi rhagor o gydnabyddiaeth i ddatblygu "sgiliau meddal" pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a'r rheini sydd mewn perygl o fod yn un o'r bobl hynny mewn lleoliadau addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

Diweddariad

Mae "Dangos Llwyddiant" yn ddull o fesur canlyniadau dysgu heb fod yn ffurfiol i bobl ifanc. Mae'n ddull trylwyr, a wnaed yng Nghymru ac a brofwyd yn academaidd.

Mae model Dangos Llwyddiant yn cydnabod pwysigrwydd Sgiliau a Thueddiadau Cymdeithasol ac Emosiynol wrth alluogi pobl ifanc i ddatblygu a chyflawni

cydnabyddiaeth fwy ffurfiol megis cymwysterau ac achredu. Nod nifer o raglenni ymyriad a gefnogir gan Lywodraeth Cymru yw rhoi amrywiaeth o sgiliau i bobl ifanc a all gyfrannu i'w llwyddiant addysgol a'u lles ehangach. Mae tystiolaeth gynyddol sy'n dangos bod cyflogwyr yn gwerthfawrogi'r sgiliau hyn mewn pobl ifanc yn ogystal â chymwysterau ffurfiol.

Mae Dangos Llwyddiant yn ymwneud â chipio tystiolaeth am gynnydd yn y sgiliau hynny ac mae wedi cael derbyniad da gan randdeiliaid. Mae'r fframwaith yn hyblyg i raddau helaeth a gellir ei addasu i'w ddefnyddio gydag ymyriadau tymor byr neu hir. Mae'n bosib defnyddio Dangos Llwyddiant yn ehangach yn y dyfodol i fesur y pellter a deithiwyd/cynnydd gan berson ifanc, yn enwedig ar y cyd â'r trefniadau broceriaeth a ddisgrifiwyd yn niweddariad yr ymateb i argymhelliad 9 uchod.

**Argymhelliad 18.** Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod hyfforddwyr ymgysylltu neu allgymorth ar gael i ymyrryd ar unrhyw gam yn ystod bywyd person ifanc i roi cymorth uniongyrchol ar ystod o faterion sy'n gysylltiedig â theulu, arian, addysg, cyflogaeth neu iechyd.

Diweddariad

Bu datblygiadau arwyddocaol o fewn elfen hyfforddwyr dysgu Llwybrau Dysgu 14-19. Mae rôl yr hyfforddwr dysgu mewn Ysgolion Uwchradd a Cholegau a gynhelir wedi cael ei hegluro, drwy arweiniad statudol, yn swyddogaeth y gellir ei darparu gan unigolyn neu gan dîm ac y gellir ei gyflenwi i unigolion neu grwpiau, yn dibynnu ar anghenion pob dysgwr. Mae rôl yr hyfforddwr dysgu wedi cael ei hestyn hefyd i'r rhaglen Prentisiaethau newydd ac mae'n rhan o'r trefniadau contractiol â'r darparwyr. Mae ffocws yr hyfforddiant dysgu ar roi cymorth i'r dysgwr ddatblygu: ei sgiliau dysgu, ei gymhelliant a'i ymgysylltu; ymdopi â throsglwyddo ar fannau allweddol o newid yn ystod y cyfnod 14-19; ac i gynllunio'u llwybr dysgu unigol sy'n ystyried eu sgiliau, eu nodweddion a'u profiad ym mhob agwedd ar eu bywydau.

Gall Hyfforddiant Dysgu wneud gwahaniaeth go iawn i ddysgwyr i sicrhau eu bod yn cael cymorth i'w helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i oresgyn rhwystrau i'w dysgu. Dylai'r rhai sy'n cyflenwi'r swyddogaeth hyfforddiant dysgu gyfeirio'r dysgwyr at unrhyw wasanaethau cymorth personol lle maen nhw'n profi rhwystrau i gyflawni eu gwir botensial neu i barhau i ymgysylltu â dysgu. Mae hyn yn cynnwys cymorth gan weithwyr ieuenctid cymwys a phrofiadol sy'n gallu darparu rôl fentora tymor byr, canolig neu hir i ymateb i anghenion y person ifanc er mwyn goresgyn y rhwystrau i ddysgu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu y dylai fod isafswm cymhareb i'r swyddogaeth hyfforddwr dysgu o 1:80, hyfforddwr dysgu i bobl ifanc. Mae'r data diweddaraf yn dangos bod pob ysgol a choleg yn ymgyrraedd at y targed o gyflawni hyn erbyn mis Medi 2012. Mae Llywodraeth Cymru'n dal i ddarparu cyllid i hyfforddi hyfforddwyr dysgu drwy arian grantiau 14-19 sy'n cael eu dyrannu i'r rhwydweithiau rhanbarthol. Mae'r Rhaglen Hyfforddiant Dysgu sy'n seiliedig ar unedau ar gael i bob corff dyfarnu i ffurfio cymhwyster Lefel 4 os oes angen.

Yn 2011-12 mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi prosiect peilot hyfforddiant dysgu i ehangu'r cymorth hyfforddwr dysgu llwyddiannus i rai 10-13 oed. Digwyddodd y rhaglenni peilot mewn pedair ardal awdurdod lleol; Sir Penfro, Rhondda Cynon Taf,

Ynys Môn a Gwynedd. Nod y rhaglenni peilot oedd archwilio costau a manteision cymharol cyflwyno'r Hyfforddiant Dysgu ar draws ystod oedran 10-13 oed. Gwneir gwerthusiad o'r rhaglenni peilot yr haf hwn.

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gaffael

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 14 Mawrth 2012** |
| Amser: | **11:26 – 12:48** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Julie James (Cadeirydd)**<br>**Byron Davies**<br>**Eluned Parrott**<br>**David Rees**<br>**Leanne Wood** |
| Tystion: | **Alison Steadfast, Deputy Director of Procurement, Value Wales**<br>**Nick Sullivan, Gwerth Cymru**<br>**Kerry Wilson, Gwerth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Lara Date (Clerc)**<br>**Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon
Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

### 2. Ymchwiliad i ddylanwadu ar y broses o foderneiddio polisi caffael Ewrop: Sesiwn dystiolaeth
Osgoi risg: mae nifer o ffactorau yn achosi ymddygiad i osgoi risg yn y sector caffael yng Nghymru: mae diwylliant y sector cyhoeddus yn rhoi llawer o bwyslais ar broses a gwneud pethau yn gywir, ac mae'r canlyniadau o ran cael rhywbeth yn anghywir yn fwy nag o gymryd siawns. Mae diwylliant rhai sefydliadau o ran ymddygiad yn gwobrwyo osgoi risg mwy nag y mae'n gwobrwyo cymryd risg. Mae llawer o waith Gwerth Cymru yn ymwneud â rhannu arfer da i annog pobl i gymryd siawns.

Nododd Gwerth Cymru ganlyniadau cyfreithiol peidio â chydymffurfio yn fwy nag yr oeddent bedair neu bum mlynedd yn ôl; gall prynwyr wynebu dirwy ac achos

tordyletswydd, a bydd eu contractau'n cael eu hatal dros dro, felly mae cyfreithwyr yn dueddol o fod hyd yn oed yn fwy amharod i gymryd risg ac mae'r cyngor hwnnw yn aml yn cael blaenoriaeth dros gyngor cyfreithiol arall. Mae Gwerth Cymru wedi bod yn ceisio mynd i'r afael â'r agwedd hon drwy hyfforddiant a gweithdai sy'n cynnig cyfle i gyfreithwyr drafod cyfleoedd a gwneud penderfyniad ar y cyd. Roedd nifer dda o arbenigwyr caffael yn bresennol ar gyfer tri gweithdy ym mis Chwefror a mis Mawrth, ond dim ond rhai cyfreithwyr a phenaethiaid gwasanaethau cyfreithiol oedd yn bresennol, felly mae mwy o waith i'w wneud.

Datblygu'r polisi buddion cymunedol:- Lle mae ymdrechion i gynnwys cymalau cymdeithasol mewn contractau wedi llwyddo, nid oedd y llwyddiant yn ganlyniad i'r prynwyr yn gwthio'r polisi yn unig, ond y ffaith bod y tîm cyfreithiol, rheolwr y prosiect a'r sawl sy'n gyfrifol am y gyllideb hefyd yn deall yr hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, a bod y tîm o bobl sy'n gysylltiedig â gwneud y penderfyniad yn gytûn ar hynny.

Mae gallu prynwyr proffesiynol i gael dylanwad o fewn eu sefydliadau yn ddibynnol ar eu gallu technegol a'r graddau y maent yn gallu cyfathrebu ac ysgogi newid mewn ymddygiad. Roedd unigolion hefyd yn ennill yr hawl i gael dylanwad o fewn sefydliadau drwy ddangos eu bod yn gallu sicrhau canlyniadau.

Mewn ymateb i'r cwestiwn pam bod Cymru a/neu'r Deyrnas Unedig yn ymddangos i fod yn fwy amharod i gymryd risg nag aelod wladwriaethau eraill yr Undeb Ewropeaidd, roedd Gwerth Cymru wedi comisiynu gwaith ymchwil i ystyried a oedd tystiolaeth yn cefnogi'r honiadau hyn. Nid osgoi risg oedd yr unig ffactor sy'n effeithio ar gaffael.

Bu'r grŵp yn ystyried statws arbenigwyr caffael o fewn awdurdodau contractio cyhoeddus. Fel arfer, mae'r pennaeth caffael yn y rhan fwyaf o sefydliadau yn atebol i bennaeth adnoddau neu'r cyfarwyddwr cyllid, neu mae ei safle un neu ddwy haen o dan yr unigolion hynny, a gallai'r pellter hwnnw fod yn broblem. Fodd bynnag, yn y sector preifat, bydd y prynwr fel arfer ar yr un lefel a bydd yn gwneud penderfyniadau ar y cyd: gweithio mewn partneriaeth, gyda'r partneriaid oll yn atebol am y canlyniad. Mae gan lawer o sefydliadau sector cyhoeddus adrannau caffael sy'n rhoi cyngor, ond nid yw'r sefydliadau o reidrwydd yn cymryd y cyngor hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru ei hun yn edrych ar gryfhau rôl caffael, gan gynnwys mesurau i gynyddu sgiliau ac ymgysylltu â chynghorwyr cyfreithiol i gryfhau'r cyngor sy'n cael ei gynnig a dylanwadu ar hyblygrwydd cyngor cyfreithiol. Mewn rhannau allanol eraill o'r sector cyhoeddus yng Nghymru ceir tystiolaeth bod y canlyniadau yn bendant yn gryfach pan fo pennaeth caffael ar lefel uwch o ran staff.

Nodwyd fod rhai sefydliadau sector cyhoeddus yr oedd eu gweithgareddau caffael hyd yn ddiweddar yn syrthio y tu allan i gylch gorchwyl Gwerth Cymru. Bu'r grŵp yn ystyried a oes gan Gwerth Cymru y 'dannedd' yr oedd eu hangen arno i hyrwyddo polisi caffael blaengar ledled sector cyhoeddus Cymru, a pha opsiynau oedd ar gael i Lywodraeth Cymru. Rôl Gwerth Cymru oedd nodi'r pethau cywir i'w gwneud ac annog ymgysylltu er mwyn newid ymddygiad. Heblaw deddfwriaeth, roedd Llywodraeth Cymru yn edrych ar opsiynau posibl o ran mesur perfformiad, sut mae rhai sefydliadau yn adrodd yn ôl am yr hyn y mae wedi eu cyflawni a'r cyswllt rhwng perfformiad a chyllid, ac amodau grant. Wrth roi rhagor o 'ddannedd' i Gwerth Cymru, roedd yn bwysig i beidio â mynd mor bell ag ymdrechu'n egnïol i wrthsefyll yr hyn yr oedd yn cael ei ofyn amdano. Mae ymgysylltu â phobl ar bolisi a chydweithio i ddatblygu offer yn arwain at y polisïau'n cael eu mabwysiadu'n well. Fodd bynnag, lle mae gwrthwynebiad, byddai'n ddefnyddiol cael dull gweithredu i fynd i'r afael ag ef. Roedd trefniadau a phwerau yn

amrywio fesul sector, ac roedd Llywodraeth Cymru a nifer o sectorau wedi cilio o gyhoeddi canlyniadau a chymharu perfformiad sefydliadau yn y gorffennol.

Byddai'n ddefnyddiol pe byddai awdurdodau contractio yng Nghymru yn gorfod cael lefel penodol o allu neu fynediad at y gallu hwnnw - edrychwyd ar hynny yn yr Alban.

Roedd yr amser a dreuliwyd gan Lywodraeth Cymru, a'r ymdrechion a wnaethpwyd ganddi, i wthio newid yn rhwystredig, ac roedd cost ceisio annog newid yn aml yn anghymesur â'r newid a gyflawnwyd. Byddai unrhyw beth a allai gyflymu ymateb sefydliadau allanol o ran rhoi cais ar bethau newydd fod yn ddefnyddiol.

Roedd y Llywodraeth yn ystyried a ddylai brand Llywodraeth Cymru ymddangos yn gliriach ar ddatganiad ar ffurf polisi caffael Cymreig - er mwyn gyrru blaenoriaethau'r Llywodraeth, gyda chydnabyddiaeth gan awdurdodau contractio cyhoeddus fod gan Lywodraeth Cymru yr hawl i bennu'r polisi hwnnw, a bod angen iddynt fabwysiadu'r polisi hwnnw ar lawr gwlad.

I roi gwell statws i gaffael a'i wneud yn fwy diddorol, roedd yn bwysig canolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na phroses, ac i brynwyr ddefnyddio'r iaith gywir ar gyfer y bobl y maent yn dymuno cael dylanwad arnynt. Byddai gosod y swyddogaeth gaffael yn ei chyd-destun ehangach a rhoi cyfle i bobl broffesiynol weithio mewn mannau eraill, gan reoli contractau ac arian a chymryd rôl y tu hwnt i gaffael, yn ddefnyddiol. Dylai canlyniadau caffael gael eu cysylltu'n ôl at amcanion corfforaethol strategol; byddai mabwysiadu dangosyddion perfformiad allweddol yn helpu, ac mae gwaith wedi'i wneud yn hynny o beth.

Cafwyd trafodaeth i ystyried a yw cymwysterau Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi yn briodol yn y meysydd gwariant mawr o adeiladu a gofal cymdeithasol pan nad oedd y prynwyr hynny yn dueddol o fod o gefndir caffael nac o gael cymwysterau o'r Sefydliad Siartredig. Nodwyd fod angen sgiliau a gwybodaeth ychwanegol yn y meysydd hyn. Nodwyd fod gwaith hefyd yn cael ei wneud i edrych ar Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a chymwysterau gofal cymdeithasol.

Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol - cafwyd trafodaeth ynghylch a allai'r ymgyrch i brynu 'Unwaith dros Gymru' wyrdroi ymdrechion i rannu contractau yn hytrach na'u cronni er mwyn mynd i'r afael â phryderon busnesau bach sy'n ceisio cael mynediad at y farchnad. Y bwriad oedd dwyn holl wariant ar gyfer cytundebau Cymru-gyfan presennol ynghyd er mwyn bod yn fwy effeithiol o ran cost a hefyd i weld a oedd unrhyw gyfleoedd ar gyfer mewnfuddsoddiad, er enghraifft ar yr ochr ddosbarthu. Fodd bynnag, roedd Gwerth Cymru yn ymwybodol iawn o'r effeithiau economaidd posibl, a byddai'n eu hasesu i sicrhau bod y canlyniad yn fuddiol. Byddai'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn cael ei anelu at y 20 y cant o wariant sector cyhoeddus ar nwyddau nad yw'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru. Roedd yr opsiynau o ran modelau gweithredu a gallu sefydliadau i ddewis cael eu cynnwys ai peidio yn parhau i gael eu hystyried. Nododd y Cadeirydd os fyddai'r trefniadau'n wirfoddol, gellir cynnwys elfen archwilio i asesu'r effaith ar sefydliadau sy'n dewis peidio cael eu cynnwys.

O ran pryderon microfusnesau mewn perthynas â'r cysyniad ei fod yn anodd gweithio gydag offeryn cyn-gymhwyso Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr, ac nad yw'r offeryn hwnnw bob amser yn berthnasol i'w hamgylchiadau, gofynnodd y grŵp am weithrediad electronig y system honno. Y bwriad oedd bod sefydliadau'n gallu ychwanegu at y cwestiynau safonol yn y Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr cyd ag y bo hynny'n berthnasol i'r tendr penodol o dan sylw,

ond nodwyd y byddai rhai pobl yn ychwanegu llawer o gwestiynau at y gronfa. Roedd oedi wedi bod o ran gweithredu electronig, ond os byddai'r system yn troi'n un electronig, byddai'n caniatáu i'r ffordd yr oedd yn cael ei defnyddio i gael ei monitro. Byddai'r system yn edrych yn fwy beichus i fusnesau nes iddo fod yn electronig, a gobeithiwyd y byddai'n symud ymlaen o'r cymal 'oedi ac adolygu' Gweinidogol yn fuan.

Rheoli contractau – mewn ymateb i gwestiwn ar bryderon bod prynwyr yn dewis ffurf symlaf oherwydd nad oedd ganddynt y gallu i reoli contractau, nododd Gwerth Cymru effaith toriadau cyllidebol ar yr adnoddau staff sydd ar gael i reoli cyflenwyr amrywiol. Cael cydbwysedd sy'n bwysig. Mae defnyddio llawer o gyflenwyr bychain yn golygu costau uwch a risgiau mwy os yw'r sefydliad yn methu â rheoli'r contractau. Ar y llaw arall, gellid defnyddio cwmni mwy ond canolbwyntio ar y gadwyn cyflenwi a'r polisi buddion cymunedol, lle mae maint y prosiectau yn gwneud synnwyr – dyna'r penderfyniad sydd angen ei wneud wrth i'r strategaeth gaffael gael ei llunio.

Nodwyd fod y grŵp wedi clywed safbwyntiau gwahanol iawn ar y mater hwnnw gan sefydliadau, a bod angen gofyn pa arweiniad a roddwyd gan Lywodraeth Cymru. Awgrymodd Gwerth Cymru y dylid cysylltu â sefydliadau i wneud yr hyn sydd ei angen i ddiogelu swyddi yng Nghymru. Nid oedd hyn o reidrwydd yn golygu contractau uniongyrchol, ond sicrhau bod yr agwedd honno wedi'i chynnwys yn y strategaeth. Rhoddodd y canllawiau caffael arweiniad ar feddwl am yr effaith ar swyddi ac effeithiau eraill, boed yn negyddol neu'n gadarnhaol, ar ddechrau'r broses gaffael.

# Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gaffael

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 23 Chwefror 2012** |
| Amser: | **13:20 - 14:56** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Julie James (Cadeirydd)**<br>**Byron Davies**<br>**Eluned Parrott**<br>**David Rees**<br>**Leanne Wood** |
| Tystion: | **Iestyn Davies, Federation of Small Business**<br>**Debbie Scott, Groundsolve Ltd**<br>**Howard Allaway, Consortiwm Pwrcasu Addysg Uwch Cymru (HEPCW)**<br>**Rhidian Morgan, Partneriaeth Caffaeth Addysg Uwch De-orllewin Cymru (SWWHEPP)**<br>**Mark Barrow, Cyngor Dinas Birmingham** |
| Staff y Pwyllgor: | **Lara Date (Clerc)**<br>**Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)**<br>**Robin Wilkinson (Ymchwilydd)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

### 2. Ymchwiliad i ddylanwadu ar y broses o foderneiddio polisi caffael Ewrop: Sesiwn dystiolaeth

Croesawodd y Cadeirydd Iestyn Davies, Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru, Debbie Scott, Groundsolve Ltd, Howard Allaway, Consortiwm Pwrcasu Addysg Uwch, Cymru a

Rhidian Morgan, Partneriaeth Gaffael Addysg Uwch De-orllewin Cymru (SWWHEPP) i'r cyfarfod.

- Roedd y Ffederasiwn Busnesau Bach yn gefnogol yn gyffredinol o egwyddorion y mesurau symleiddio yng nghynigion yr UE. Roedd y Ffederasiwn am weld y cynigion i rannu contractau yn lotiau yn cael eu cryfhau hyd yn oed ymhellach er mwyn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau ddangos pam mae amgylchiadau eithriadol i beidio â defnyddio lotiau ac i roi'r argraff bod lotiau yn adlewyrchu'r arfer gorau. Mae atal is-gontractwyr rhag cael eu talu'n hwyr hefyd yn bwysig wrth helpu busnesau bach a chanolig â llif arian. Roedd y Ffederasiwn yn croesawu'r cyfle i gael rhagor o drafodaethau ar y broses gaffael.
- Nodwyd bod y materion caffael yng Nghymru yn ymwneud â diwylliant. Trafodwyd yr angen i wario arian cyhoeddus er lles y cyhoedd, ond codwyd cwestiwn ynghylch beth, mewn gwirionedd, yw lles y cyhoedd – nodwyd bod lles y cyhoedd yn ymwneud â chymunedau a busnesau cynaliadwy, ac mae gwerth am arian yn rhan o hynny. Nodwyd rhai enghreifftiau o arfer da ym maes caffael yng Nghymru ac mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach yn erfyn ar Lywodraeth Cymru i ganmol y rheini gan sicrhau eu bod yn cael eu rhannu â'r gymuned gaffael gyfan.
- Nodwyd bod yr holiadur cyn-gymhwyso yn broblem i fusnesau bach a chanolig. Nodwyd bod tuedd i'r broses holiadur cyn-gymhwyso fynd yn fwy cymhleth gydag amser wrth i bobl ychwanegu at y gofynion. Croesawyd Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (SQuID), ond mae eisoes yn ofynnol yn y sector adeiladu i dalu am gofrestru gwybodaeth ar Constructionline, felly roedd pryderon ynghylch dyblygu gwaith a chost gwahanol fesurau i gadw data cyflenwyr. Nododd y sector addysg uwch y gallai dull o weithio SQuID, sydd ar sail risg, fod o fantais mawr wrth helpu awdurdodau sy'n contractio i ganolbwyntio ar yr hyn y maent yn ei gaffael, ac i ofyn i gyflenwyr am faint priodol o wybodaeth a sicrhau lefel briodol o graffu ariannol.
- Dylid teilwra system SQuID yn briodol i gyd-fynd â gofynion cyfreithiol maint y busnes o dan sylw, er enghraifft, o safbwynt gofynion iechyd a diogelwch, fel na fydd busnesau llai yn gwneud eu hunain yn anghymwys drwy ymddangos fel pe na baent yn cwrdd ag anghenion y rheolau. Rhoddwyd cymorth i ficrofusnesau ar gyflwyno tendrau, ond mae angen hyfforddiant hefyd ar y rhai sy'n asesu cynigion i sicrhau eu bod yn deall y gofynion cyfreithiol ar gyfer busnesau llai.
- Roedd lefel yr yswiriant sy'n angenrheidiol mewn manylebau hefyd yn rhwystr i ficrofusnesau, a dylai awdurdodau lleol ystyried a yw lefel yr yswiriant y maent yn gofyn amdani'n briodol o ran y risg neu'n afresymol o uchel.
- Nodwyd bod dull o weithio'r sector addysg uwch yn dibynnu ar faint a math y contract, ac anogwyd busnesau bach a chanolig i wneud cynnig. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gallent fethu â bodloni meini prawf gofynnol y cyfnod cyn-gymhwyso ar gyfer rhai cytundebau fframwaith mwy, a thrwy hynny, yn cael eu heithrio. Roedd llawer o gytundebau cydweithio yn y sector addysg uwch ledled y DU. Byddai gan Consortiwm Pwrcasu Addysg Uwch, Cymru gyfraniad i'w wneud ar y strategaeth a sut y mae modd strwythuro'r contract, ond nid o reidrwydd sut y caiff ei reoli yn gyffredinol. Nid yw rhannu contractau cenedlaethol y sector addysg uwch yn lotiau yng Nghymru bob amser yn bosibl i gytundebau cenedlaethol mawr ac mae'n dibynnu ar y nwyddau sy'n cael eu prynu.

- Rhoddwyd esiampl 'wrthun' o'r posibilrwydd y gallai cwmni bach fethu â chael contract ar sail trosiant/capasati, gan ennill rhywfaint o'r busnes fel is-gontractwr i'r contractwr mwy a enillodd y contract, gan ddarparu rhan o'r gwasanaeth am gost mwy na phe bai'r awdurdod a oedd yn cynnig y contract wedi defnyddio'r cwmni'n uniongyrchol yn lleol. O ganlyniad, gallai sefydliadau'r sector cyhoeddus dalu mwy am wasanaethau, ond eu bod yn dewis y llwybr hwn gan ei fod yn lleihau'r costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â rheoli mwy nag un darparwr.
- Nododd y Ffederasiwn Busnesau Bach yr effaith y mae taliadau hwyr yn ei chael ar fusnesau bach a chanolig sy'n darparu nwyddau a gwasanaethau fel is-gontractwyr – mae angen gwelliannau yn hyn o beth. Cadarnhaodd y sector addysg uwch y bydd y graddau y bydd y sector addysg uwch yn monitro ac yn rheoli taliadau i is-gontractwyr yn dibynnu ar adnoddau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gallai'r sector roi mwy o sylw i hyn yn y dyfodol.
- Mae'r sector addysg uwch yng Nghymru yn ystyried cost 'oes gyfan' wrth ddod i gasgliadau am werth am arian gan ystyried polisi lles y gymuned yn gynyddol wrth lunio manylebau caffael, ond nid oedd yn glir i ba raddau roedd hyn yn digwydd ar draws y sector addysg uwch yn y DU o ran cytundebau Lloegr. Ystyriwyd bod cymalau cymdeithasol ac amgylcheddol yn fwy priodol ar gyfer prosiectau ystadau ac adeiladu o ran gwaith caffael yn y sector addysg uwch. Er enghraifft, roedd Prifysgol Fetropolitan Caerdydd yn arwain y farchnad ym maes caffael bwyd cynaliadwy yn y sector addysg uwch yng Nghymru – mae pob un o arferion y Brifysgol Fetropolitan, sy'n ymwneud â chaffael bwyd ar ran Consortiwm Pwrcasu Addysg Uwch, Cymru, ar gael i bob sefydliad y Consortiwm.
- Nododd Groundsolve fod cwmnïau mwy sy'n ennill contractau ac yr oedd gofyn iddynt gyflogi'n lleol a defnyddio cwmnïau lleol yn aml yn defnyddio digwyddiadau 'cwrdd â'r prynwr' er mwyn bodloni amodau'r contract. Gallai hyn olygu llawer o deithio i gwmnïau bach a chanolig, heb sicrwydd o ennill gwaith yn lleol, yn enwedig yng Ngogledd Cymru. Nodwyd bod busnesau bach a chanolig yn colli diddordeb yn y dull hwn o weithio. Mae potensial i gyrff cyhoeddus rannu arfer da gan ddysgu ar draws ffiniau awdurdodau lleol i atal dulliau 'ticio'r blwch' o weithio, gan weld awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill yn cynnal perthynas mwy hirdymor â darparwyr. Drwy hyn, gellir meithrin ymdeimlad o berchnogaeth er mwyn gweld twf a chynaliadwyedd busnesau lleol. Nodwyd yr esiampl o ysbyty Ystrad Mynach yn cael ei adeiladu heb ddefnyddio unrhyw nwyddau gan wneuthurwr briciau lleol.
- Dylid rhoi mwy o bwys ar gynnig gwerth i gymunedau lleol a llai o bwys ar bryderon ar sail osgoi risg nad oedd cwynion ynghylch cwmnïau lleol yn ennill busnes.
- Mae egwyddorion caffael a thendro ar draws y sector addysg uwch yng Nghymru yn debyg yn gyffredinol, er nad yw'r union bolisïau gweithdrefnau, y broses dendro ffurfiol a'r trothwy sy'n cael eu defnyddio yr un fath: mae sefydliadau llai fel arfer yn defnyddio trothwy is.
- Nododd y Ffederasiwn Busnesau Bach, er bod caffael yn gyffredinol yn rhan o bortffolio'r Gweinidog Cyllid, y Gweinidog Menter sy'n gyfrifol am ei ddefnyddio fel offeryn er twf economaidd, a gallai hyn arwain at ddeddfu ddwywaith ar yr un mater, er enghraifft, gan osod gofynion iechyd a diogelwch beichus ar fusnesau bach. Dangosodd fod y cydbwysedd yn pwyso mwy ar ddiwydrwydd ac atebolrwydd ariannol yn hytrach nag ar sylweddoli'r potensial caffael.

- Nododd cynrychiolydd Consortiwm Pwrcasu Addysg Uwch, Cymru, pe bai rhannu contractau yn lotiau'n digwydd mewn modd a oedd yn briodol i bob contract penodol, na ddylai, fel arfer, fod yn faich gormodol ar y prynwr. Byddai cyfle i'r prynwr gyfrannu at gytundebau drwy grwpiau nwyddau'r sector addysg uwch yn genedlaethol, Cymru gyfan ac yn benodol i'r consortiwm i sicrhau bod y strategaethau contractio yn diwallu'r anghenion.
- Nododd y Ffederasiwn Busnesau Bach y dylai'r diwylliant o wario ar fusnesau bach a'r diwylliant o ystyried y sector cyhoeddus fel stiward ar arian cyhoeddus ddod at ei gilydd er mwyn hyrwyddo'r egwyddor bod gwario arian yn lleol yn arwain at gymunedau busnes a sector addysg gynaliadwy ac economi iach. Yr unig ffordd o wneud hyn yw sicrhau ymgysylltiad prynwyr a busnesau bach. Dywedodd un o'r tystion, "it cannot be done as a tick-box exercise over a congealed bacon sandwich in a hotel."
- Yn dilyn y cyfarfod, cyflwynodd ConstructionSkills Wales rhagor o wybodaeth am ymateb y CBI i'r Cyfarwyddebau drafft ac i gynnig deddfwriaethol gan yr UE ar fynediad trydedd wlad i'r farchnad sengl.

## 3. Ymchwiliad i ddylanwadu ar y broses o foderneiddio polisi caffael Ewrop: Sesiwn dystiolaeth (drwy gynhadledd fideo)

Croesawodd y Cadeirydd Mark Barrow o Gyngor Dinas Birmingham i'r cyfarfod.

- Disgrifiodd Cyfarwyddwr Datblygu Cyngor Dinas Birmingham ddull y Cyngor o ddefnyddio caffael cyhoeddus i fuddsoddi yn yr economi leol. Mae Birmingham yn wynebu 'sialensiau enfawr' wrth fynd i'r afael â'r lefel o ddiweithdra'n lleol.
- Mae'r Cyngor yn gweithio gydag awdurdodau eraill a phartneriaid ar Banel Cynhwysiant Economaidd Gorllewin Canolbarth Lloegr, gan ganolbwyntio ar yr hyn y gellir ei wneud ar y cyd, drwy ddylanwad gwaith caffael, i gefnogi twf yn yr economi leol ac wrth ddatblygu'r gadwyn gyflenwi, a hynny o fewn y gyfraith.
- Mae'r gwaith yn ymwneud â defnyddio grym stiwardiaeth y sector cyhoeddus i gefnogi datblygiadau lleol gan gynnal cystadleuaeth a fframwaith caffael iach.
- Comisiynwyd cwmni o arbenigwyr cyfreithiol i ddyfeisio fframwaith er mwyn dechrau pennu faint y mae'r rhai sy'n darparu nwyddau a gwasanaethau'n defnyddio'r economi leol - mae dros £5 biliwn o wariant wedi mynd drwy'r fframwaith. Mae hyn hefyd yn cydfynd â chaniatâd cynllunio i annog datblygwyr i gyflogi pobl leol a fu'n ddi-waith am gyfnod hir.
- Ochr yn ochr â'r fframwaith, mae pecyn cymorth ar gael ar-lein sy'n cynnig arweiniad ymarferol penodol ar sut mae cynnwys cymalau cymdeithasol mewn contractau. Mae'r pecyn wedi ei brofi'n helaeth ar lefel yr UE gyda'r Uned Cymorth Gwladwriaethol, ac mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn ei gefnogi.
- Ochr yn ochr â hynny, datblygwyd 'e-Bay i fusnesau', o'r enw FindItInBirmingham.Com i gefnogi busnesau bach a chanolig drwy hysbysebu cyfleodd i fusnesau lleol wneud cais i fod yn rhan o gadwyn gyflenwi. Mewn 18 mis mae £3.7 biliwn o gytundebau'r sector preifat wedi bod trwy borth ar-lein ac mae 10,000 o gwmnïau wedi cofrestru.

- Mae sefydlu rhwydwaith o ficrofusnesau sy'n gweithio mewn amgylchedd â chefnogaeth yn caniatáu i'r Cyngor greu cyfleoedd a defnyddio ei ddylanwad i'w symud ymlaen yn economaidd, ac i ddatblygu dealltwriaeth a gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio, ac am feysydd sy'n datblygu yn yr economi lleol.
- Birmingham yw'r cyngor mwyaf yn y wlad ac mae'n cynnig elfen o arweiniad rhanbarthol, gan ddarparu fframwaith sy'n eiddo deallusol agored ac ar raddfa sy'n galluogi cynghorau llai i'w ddefnyddio, fel bod pawb ar eu hennill.
- Mae'r rhwydwaith sy'n dod â 33 o gynghorau gorllewin canolbarth Lloegr at ei gilydd, yn gefnogol o'r dull hwn o weithio, gan ei ddefnyddio yn sail i arferion caffael a rheoliadau ariannol yn yr awdurdodau hynny. Mae Prif Weithredwyr Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol yn rhan o'r gwaith hefyd. Unwaith yr enillwyd cefnogaeth y mwyafrif roedd yr awdurdodau nad oeddent yn rhan o'r cynllun yn amlwg, a byddai gwleidyddion yn eu herio ynghylch pam nad oeddent yn rhan ohono.
- Mae cyrff cyhoeddus gan gynnwys cyrff iechyd, yr heddlu a'r frigâd dân wedi ei fabwysiadu hefyd, yn ogystal â rhai prifysgolion. Mae'n cael ei ddefnyddio i gyrraedd targed i gynnwys 60 y cant o ddarparwyr lleol yn y prosiect adeiladu £1.5 biliwn ar gyfer ysbyty newydd yn y rhanbarth. Mae asiantaethau'r Llywodraeth, gan gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Ganolfan Byd Gwaith hefyd yn ymwneud â gwaith y Panel.
- Roedd y diwydiant adeiladu yn gefnogol iawn o'r fframwaith adeiladu, gan ddeall pwysigrwydd ei ddefnyddio fel modd o ddatblygu gallu lleol o ran sgiliau adeiladu.
- Bu'r fframwaith ar waith am 18 mis, a bydd y gwaith yn cael ei adolygu a'i asesu ar ôl dwy flynedd, gan gynnwys meincnodi data. Fodd bynnag, roedd y data cychwynnol yn galonogol. Credir bod modd i gynghorau eraill ei fabwysiadu, gan gynnwys cynghorau Cymru. Roedd y cyngor hefyd yn agored i rannu ei brofiad yn fwy helaeth, gan fentora gwaith tebyg mewn rhannau eraill o'r DU.
- Mae cael prosesau asesu risg, sy'n addas i'r diben, ar waith yn galluogi'r sefydliad i wynebu risg yn well gan fod yn fwy hyderus wrth reoli risg.